

Gofalwyr Ifanc

Weithiau, mae plant a phobl ifanc yn dod yn ofalwyr hefyd. Efallai eich bod yn iau na 18 oed eich hun ac yn cwblhau tasgau gofalu pwysig neu dasgau yn y cartref am fod gennych riant, brawd, chwaer, perthynas arall neu ffrind sydd gan:

- anabledd corfforol neu anabledd dysgu
- problem iechyd meddwl
- salwch tymor hir neu derfynol
- problem gyda defnyddio cyffuriau neu alcohol

Efallai nad ydych chi'n meddwl amdanoch chi eich hun fel gofalwr ifanc am mai fel hyn mae pethau wedi bod erioed i chi. Mae llawer o blant yn helpu gartref, ond mae gofalwr ifanc yn aml yn gyfrifol am rywun yn y teulu mewn ffordd sy'n wahanol i'r mwyafrif o bobl ifanc eraill.

Mae gennych yr hawl i ofyn am asesiad o'ch anghenion fel gofalwr ifanc. Gallwch gysylltu â'r Tîm Dyletswydd Plant ar **01758 704455** i'ch cyfeirio chi eich hun neu er mwyn cael sgwrs a mwy o wybodaeth. Bydd y tîm yn ystyried eich sefyllfa, ac efallai trefnu i gynnal asesiad o'ch anghenion. Mae modd i chi hefyd gysylltu efo Gweithredu dros Blant sydd yn arbenigo mewn cefnogi gofalwyr ifanc.

Mae Gweithredu Dros Blant yn rhedeg prosiect gofalwyr ifanc yng Ngwynedd. Gallant hefyd roi cyngor i chi, a darparu gwasanaethau ar ran Cyngor Gwynedd. Yn ogystal â chefnogaeth yn yr ysgol/addysg pellach neu/a gwaith, maent yn gallu cynnig cefnogaeth emosiynol un i un (wyneb i wyneb neu'n ddigidol) neu mewn grŵp, cyfleoedd i gael seibiant o ofalu a chymdeithasu gyda gofalwyr ifanc eraill, darparu cyngor a gwybodaeth ar materion sy'n ymwneud â gofalu i'r gofalwr ifanc ar teulu gyfan a rhoi cyfleoedd i gofalwyr ifanc cael dweud eu dweud. Gallwch gysylltu â hwy ar **01248 364614** neu trwy e-bost ar gwyneddyoungcarers@actionforchildren.org.uk Hefyd mae'n modd cysylltu gyda hwy trwy eu tudalen Facebook, lle mae gwybodaeth ddefnyddiol ar gael hefyd

<https://www.facebook.com/GofalwyrIfancYnysMonGwynedd>

Gofalwyr Ifanc

Os ydych chi yn yr ysgol, mae'n bwysig fod yr ysgol yn ymwybodol o'ch sefyllfa. Gallant eich cefnogi. Dylech drafod eich sefyllfa gyda rhywun yn yr ysgol, er enghraifft, eich athro cofrestru neu aelod arall o staff fydd yn cydymdeimlo â chi.

Mae yno ap i'ch ffôn bellach, sydd yn gallu eich cadw mewn cyswllt gyda'ch rhwydwaith cefnogol ac yn cynnwys botwm 'Ping my school', sydd yn anfon neges uniongyrchol at eich athro/athrawes os oes unrhyw beth yn achosi trafferth i chi. Ewch i wefan aidi am fwy o wybodaeth am yr ap a'r cerdyn adnabod Gofalwyr Ifanc, sydd yn gweithio ochr yn ochr â'r ap

<https://www.aidi.cymru>



Mae'r fideo ddiwedd y dudalen yn dangos sut mae'r ap yn gweithio a sut mae wedi helpu'n barod gofalwyr ifanc, fel y chi, yn yr ysgol.

Gallwch gael y cerdyn neu'r ap neu'r ddau; gallwch wneud y dewis wrth geisio ar-lein. Mae'r ddau yn cael eu cysylltu â chynllun disgownt i lefydd fel McDonalds a Byw'n Iach, lle gallwch chi'n nofio yn rhad ac am ddim a mynd â ffrind gyda chi.

Dyma linc i'r dudalen disgownt, lle mae rhai newydd yn cael eu hychwanegu'r holl amser: <https://www.aidi.cymru/disgownts-discounts/>

Gofalwyr Ifanc

Mae Cyngor Gwynedd yn cyflogi bellach Swyddog Gofalwyr Ifanc llawn-amser, Ffion Edwards, sydd yn codi ymwybyddiaeth gydag eraill am y goblygiadau o fod yn ofalwr ifanc. Os hoffech fwy o wybodaeth am unrhyw beth yr ydych wedi ei ddarllen yma, croeso i chi chysylltu gyda hi ar

Ffionwynneedwards@gwynedd.llyw.cymru

Pan fo gan rywun yn eich teulu salwch neu anabledd neu broblemau gyda diod neu gyffuriau, mae'n beth normal i gael teimladau gwahanol am y sefyllfa. Efallai eich bod yn hoffi'r teimlad o gyfrifoldeb ac yn cael boddhad o wneud rhywbeth defnyddiol i'ch teulu, neu efallai eich bod yn teimlo'n drist, yn flin neu dan straen. Gall siarad â rhywun fydd yn gwrando arnoch fod o gymorth.

Yn ôl gofalwyr ifanc, er bod yna nifer o agweddau positif i ofalu sy'n rhoi boddhad iddynt, gallant golli allan ar bethau megis yr ysgol, bywyd cymdeithasol gyda ffrindiau a gweithgareddau. Os yw gofalu yn effeithio ar eich gwaith ysgol, eich iechyd neu'n achosi problemau eraill i chi, efallai y bydd eich teulu yn gallu cael help. Mae'n ofnadwy o bwysig nad ydych yn ceisio ymdopi ar eich pen eich hun.

"Diolch am drefnu i rhywun o'r brosiect cysylltu efo fi er mwyn i mi cael siarad gyda rhywun, rili gwerthfawrogi".

Gofalwr ifanc 15oed